

Siarad a Gwranddo

Llafar

Mae cyfathrebu da yn hanfodol ar gyfer dysgu. Nid yn unig y mae'n sylfaen ar gyfer darllen ac ysgrifennu, mae hefyd yn hanfodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant. Mae cyfathrebu da yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad hefyd.

Mae llawer o rieni a gofalwyr yn poeni a fydd eu plentyn yn gallu dweud wrth yr athro neu'r athrawes os oes angen rhywbeth arno neu a fydd yn gwneud ffrindiau. Mae sgiliau cyfathrebu da yn sail i'r galluoedd hyn.

Gwranddo

Mae disgyblion da yn wrandawyr gwych. Mae'r ysgol yn cynnwys llawer o wrando, ar eu hathro/athrawes ac oedolion eraill, felly bydd ymarfer sgiliau gwranddo da cyn i'ch plentyn ddechrau'r ysgol yn ei helpu i ddechrau gwych.



Cwtsh gyda llyfr (2+ oed)

Ceisiwch greu ardal neu gael bocs arbennig ar gyfer adrodd straeon. Gofynnwch i'ch plentyn ddewis y stori.

COFIWCH: Gwnewch yn siŵr bod yr ardal yn gyfforddus ac yn dawel wrth i chi ddarllen y stori.

Rhannu straeon (2+ oed)

Yn ystod amser stori, anogwch y plant i ryngweithio â'r stori trwy eu holi e.e. "Beth sy'n digwydd yn y llun?"

COFIWCH: Defnyddiwch straeon syml gyda digon o luniau

Straeon byrion gweithredol (2+ oed)

Rhannwch straeon byrion ac anogwch eich plentyn i'w gweithredu neu ailadrodd elfennau ailadroddus e.e. Y tri mochyn bach - "Felly fe wna i chwythu a chwythu a chwythu dy dŷ di i lawr". Gallech hefyd greu gweithredoedd ar gyfer y stori ac annog y plant i ymuno.

COFIWCH: Defnyddiwch yr un straeon fel bod y plant yn dod yn gyfarwydd â'r gweithredoedd.

Hwiangerddi gweithredol (2+ oed)

Gwnewch focs hwiangerddi gyda phropiau fel masgiau, ffigurau ac ati. Wrth adrodd/canu hwiangerddi, anogwch eich plentyn i ddefnyddio'r propiau ac actio'r rôl. E.e. pry copyn - "Dringodd y pry copyn, fyny'r biben hir", cwch - "Rhwyfo, rhwyfo'r cwch".



Gêm siopa (3 + oed)

Chwaraewch gêm siopa lle mae'r plentyn yn dod o hyd i eitemau ar gyfer eich basged siopa.

COFIWCH: Os gall y plentyn ymdopi ag un eitem, gofynnwch iddo ddod o hyd i 2 ac ati.

Helpa drysor (3+ oed)

Gwnewch helpa drysor a rhwch gyfarwyddiadau llafar i helpu'ch plentyn i ddod o hyd i'r gwrthrychau.

COFIWCH: amrywio cymhlethdod y cyfarwyddyd yn ôl gallu.

GWNEUD PENDERFYNIADAU

Rhowch lawer o gyfleoedd i'ch plentyn wneud penderfyniadau, rhoi barn a thrafod ei deimladau. A fyddai'n well ganddo dost neu rawnfwyd i frecwast? Beth mae'n edrych ymlaen ato fwyaf am ddechrau yn yr ysgol?

RHANNU LLUNIAU

Mae edrych ar luniau gyda'ch gilydd yn ffordd dda o gael sgwrs yn llifo. Bydd gan blant ddiddordeb mewn lluniau ohonyn nhw eu hunain pan oeddent yn fabanod a hen luniau o'r teulu cyn iddynt gael eu geni.

RHANNU LLYFRAU

Mae plant y mae oedolyn yn darllen iddynt bob dydd yn gwneud yn well ym mhob maes dysgu. Peidiwch â chyfyngu darllen i straeon amser gwely yn unig, cyflwynwch eich plentyn i gylchgronau, gwefannau, catalogau, arwyddion a ryseitiau - mae'r rhain i gyd yn rhoi cyfleoedd ar gyfer darllen a thrafod.



SIARAD GYDA'CH GILYDD

Anogwch eich plentyn i siarad am yr hyn mae wedi'i wneud heddiw. Adrodd hyn yn ôl i rywun e.e. Mam, Dad, brawd neu chwaer, Mam-gu ac ati.

PYPEDAU

Rhowch gynnig ar rai bypedau. Gall siarad â phyped llaw annog plant, yn enwedig y rhai sy'n swil ac yn gythryblus. Gall eu helpu i leisio eu syniadau a'u teimladau y gallent fel arall ei chael hi'n anodd eu mynegi.



CHWARAE RÔL

P'un a yw'n gwisgo, actio rolau bywyd go iawn fel meddyg neu athrawon neu chwarae'r byd bach, mae chwarae rôl yn helpu plant i ddatblygu eu sgiliau iaith a chymdeithasol.



BBC BITESIZE - How to talk to your child.